# Datblygu'r Gymraeg







chwarae • dysgu • tyfu
play • learn • grow
cyfnod sylfaen 3–7 foundation phase



**Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**
**Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# Datblygu'r Gymraeg

**Cynulleidfa**

Penaethiaid, athrawon, ymarferwyr, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a phwyllgorau rheoli yn y sector nas cynhelir yng Nghymru; awdurdodau addysg lleol; undebau athrawon a chyrff cynrychioli ysgolion; awdurdodau esgobaethol eglwysi; cyrff cenedlaethol yng Nghymru sydd â diddordeb mewn addysg.

**Trosolwg**

Mae'r canllawiau hyn yn cefnogi Maes Dysgu Datblygu'r Gymraeg yn y ddogfen *Cyfnod Sylfaen: Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru*. Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau ar y sgiliau a'r wybodaeth y bydd plant yn eu caffael, ynghyd ag astudiaethau achos sy'n ymdrin â rhoi hyn ar waith mewn lleoliadau ac ysgolion. Ni ddylid edrych ar y canllawiau hyn na'r Maes Dysgu na'u cyflwyno heb ystyried meysydd eraill; dylid cynllunio ar ei gyfer ar draws y cwricwlwm.

**Rhagor o wybodaeth**

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu
Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Llawr 10, Tŷ Southgate
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW
Ffôn: 0800 083 6003
Ffacs: 029 2037 5496
e-bost: C&A3-14.C&A3-14@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol**

Ar gael drwy gysylltu:
Ffôn: 029 2037 5427
Ffacs: 029 2037 5494
Neu drwy ymweld â gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru
www.cymru.gov.uk

Cyf: AC/GM/0851
ISBN: 9780750446938
Mai
A-EAC-02-01-qA686758/1/AB
© Hawlfraint y Goron 2008

# Cynnwys


**Cefndir** 3

**Cyflwyniad** 5
Dwyieithrwydd yng Nghymru
Datblygu'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen
Tuag at ddwyieithrwydd a datblygu sgiliau trosglwyddadwy
Gweithgareddau dysgu

**Llafaredd** 9
Siarad
Enghraifft o chwarae rôl
Gwrando

**Darllen** 13

**Ysgrifennu** 16
Enghraifft o wneud marciau/ymgais i ysgrifennu llythrennau
Enghraifft o sgriblo di-eglurhad
Enghraifft o sgriblo ag eglurhad
Enghraifft o ymgais i ysgrifennu llythrennau
Enghraifft o wneud rhestrau/nodiadau
Enghraifft o'u hymgais eu hunain i ysgrifennu brawddegau syml
Astudiaeth achos: Ffurfio llythrennau
Enghraifft o ysgrifennu brawddegau syml gan ddefnyddio priflythrennau, atalnodau llawn a gofynodau
Astudiaeth achos: Y tegan rhaglenadwy

**Datblygu'r Gymraeg yn yr amgylchedd dysgu** 27
Rôl yr ymarferydd
Astudiaeth achos: Codi ymwybyddiaeth o'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol ac yn y gymuned
Creu amgylchedd dwyieithog
Defnyddio'r Gymraeg yn y drefn ddyddiol
Astudiaeth achos: Defnyddio'r Gymraeg yn ein harferion bob dydd
Enghraifft o ddefnyddio TGCh â Chymraeg yn ein harferion bob dydd
Ategu dysgu – caneuon a rhigymau
Astudiaeth achos: Canu caneuon i ddysgu geiriau newydd

Enghraifft o ganu yn yr Eisteddfod
Ategu dysgu – gemau iaith
Astudiaethau achos: ‘Pwy wyt ti?’

**Cynllunio** **37**
Cynllunio ar gyfer Datblygu’r Gymraeg
Enghraifft o symbyliad ar gyfer cynllunio
Datblygu’r Gymraeg: Cynllun wythnos

**Datblygu’r Gymraeg ar draws y cwricwlwm** **41**

**Cynnydd mewn dysgu** **43**
Llafaredd
Darllen
Ysgrifennu

**Gwybodaeth a chysylltiadau defnyddiol** **47**

**Geirfa’r Cyfnod Sylfaen** **52**

**Cydnabyddiaethau** **58**

# Cefndir

Roedd y cynigion yn nogfen Llywodraeth Cynulliad Cymru *Y Wlad sy'n Dysgu: Y Cyfnod Sylfaen 3–7 oed* yn cynnwys datblygu cwricwlwm oedd yn cryfhau ac yn cysylltu'r egwyddorion a'r arfer yn nogfen ACCAC *Canlyniadau Dymunol i Ddysgu Plant Cyn Oedran Addysg Orfodol* (2000) â'r rhaglenni astudio a'r datganiadau ffocws yng Nghyfnod Allweddol 1 y cwricwlwm cenedlaethol, a hynny er mwyn creu cwricwlwm cyfoethog dan saith Maes Dysgu i blant yn y Cyfnod Sylfaen. Mae cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn dadlau o blaid meithrin a hybu cysylltiadau cadarnhaol rhwng y cartref a darparwyr gofal ac addysg.

Mae ymagwedd Llywodraeth Cynulliad Cymru at addysg a dysgu gydol oes wedi'i nodi yng nghyd-destun ehangach ein gweledigaeth ar gyfer plant a phobl ifanc yn gyffredinol.

Mae gennym saith nod craidd ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Y nodau hyn fydd yn sail i holl weithgareddau'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS).

Rydym yn anelu at sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc:

- yn cael dechrau da, ynghyd â'r seiliau gorau posibl ar gyfer tyfu a datblygu yn y dyfodol
- yn cael cyfle i fanteisio ar amrywiaeth eang o gyfleoedd addysg, hyfforddiant a dysgu, gan gynnwys cyfleoedd i feithrin sgiliau personol a chymdeithasol hanfodol
- yn cael mwynhau'r iechyd corfforol a meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol gorau posibl, gan sicrhau hefyd nad ydyn nhw yn cael eu cam-drin na'u herlid ac nad oes unrhyw un yn camfanteisio arnyn nhw
- yn cael manteisio ar amrediad o weithgareddau chwarae, gweithgareddau hamdden, chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol
- yn cael gwrandawiad, yn cael eu trin â pharch, a bod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod
- yn cael cartref diogel a chymuned sy'n cefnogi eu lles corfforol ac emosiynol
- heb fod o dan anfantais o ganlyniad i unrhyw fath o dlodi.

Mae'r canllawiau hyn yn cefnogi'r ddogfen *Cyfnod Sylfaen: Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru.* Yn fwy penodol, fel dogfen annibynnol, mae'n darparu canllawiau ar Faes Dysgu Datblygu'r Gymraeg. Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau hefyd ar y sgiliau a'r wybodaeth y bydd plant yn eu caffael, ynghyd ag astudiaethau achos sy'n ymdrin â rhoi hyn ar waith mewn lleoliadau ac ysgolion. Ni ddylid edrych ar y canllawiau hyn na'r Maes Dysgu na'u cyflwyno heb ystyried meysydd eraill; dylid cynllunio ar ei gyfer ar draws y cwricwlwm.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu a hybu'r iaith Gymraeg. Bydd pob lleoliad/ysgol yn gweithredu rhaglen addysg Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen i blant 3 i 7 oed.

Dylai'r lleoliadau a'r ysgolion hynny a ddiffinnir fel darparwyr cyfrwng Cymraeg ddilyn rhaglen addysg y Maes Dysgu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu. Ni fydd angen iddyn nhw addysgu'r Maes Dysgu Datblygu'r Gymraeg.

Mewn lleoliadau ac ysgolion lle mae'r Saesneg yn brif gyfrwng cyfathrebu, dylid datblygu sgiliau Cymraeg plant yn raddol drwy'r Cyfnod Sylfaen wrth weithredu'r Maes Dysgu Datblygu'r Gymraeg.

Mewn lleoliadau/ysgolion cyfrwng Cymraeg a'r rhai lle y defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysgu am o leiaf ran o'r diwrnod, bydd rhai (ac mewn rhai achosion y rhan fwyaf) o'r plant yn datblygu sgiliau ieithyddol mewn iaith sy'n wahanol i iaith y cartref. Mewn lleoliadau/ysgolion trochi, mae angen hyd yn oed mwy o bwyslais cynnar ar weithgareddau siarad a gwrando er mwyn gosod seiliau cadarn ar gyfer datblygiad ieithyddol plant. Dylai lleoliadau/ysgolion sy'n defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng addysgu am ran o'r diwrnod roi pwyslais arbennig hefyd ar weithgareddau siarad a gwrando er mwyn i blant ymgyfarwyddo'n gynyddol â phatrymau iaith yn Gymraeg.

# Cyflwyniad

## Dwyieithrwydd yng Nghymru

Yng Nghymru, mae ymrwymiad y Llywodraeth i Gymru wirioneddol ddwyieithog wedi ennill ei blwyf. Mae wedi nodi gweledigaeth bendant. Un o'r egwyddorion allweddol yw bod gan bob plentyn yng Nghymru yr hawl i deimlo eu bod yn perthyn i Gymru a mwynhau profiadau o'r Gymraeg ac yn y Gymraeg.

Mae *Y Wlad sy'n Dysgu: Cyfnod Sylfaen 3–7 oed* yn dangos yn glir y bydd angen ar blant, ar draws y cyfnod hwn, mwy o gyfleoedd i brofi'r iaith Gymraeg ac i fwynhau ei defnyddio yn eu gweithgareddau pob dydd.

Yn wir, mae *Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003) yn nodi'r targed allweddol canlynol:

> Y nod tymor hir ar gyfer ein darpariaeth blynyddoedd cynnar yw cyrraedd sefyllfa ble mae llawer iawn yn fwy o blant dan 5 oed wedi cael digon o gyswllt â'r Gymraeg i allu symud naill ai i ysgolion Cymraeg neu ysgolion sy'n gweithredu'n ddwyieithog.

Bydd y canllawiau hyn yn cefnogi ymarferwyr i roi cyfleoedd i blant y Cyfnod Sylfaen i symud yn eu blaen ar hyd y llwybr yma.

Gall Datblygu'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen fod yn fan cychwyn i blant mewn lleoliadau/ysgolion Saesneg eu cyfrwng ddechrau cyfathrebu yn Gymraeg yn ôl eu gallu.

Mewn byd sy'n droi'n bentref byd-eang yn gyflym, gall hunaniaeth benodol, megis bod yn Gymro neu'n Gymraes, fod yn gyffrous ac yn fuddiol. Gall Datblygu'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen:

- helpu i hybu teimlad o berthyn ac ymwybyddiaeth o dreftadaeth, gwreiddiau a chymuned
- cefnogi dealltwriaeth o ddiwylliant Cymru
- cynnig llwybr i gyfleoedd diwylliannol a chymdeithasol newydd, megis llenyddiaeth, cerddoriaeth, ffilm, teledu a theatr.

## Datblygu'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen

Caiff plant ifanc yn y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau/ysgolion Saesneg eu cyfrwng gyfle, drwy chwarae/dysgu gweithredol, yn ogystal â storïau a gweithgareddau strwythuredig, i ddod yn ddigon cyfarwydd â Chymraeg i'w hannog i ddysgu mwy am iaith a meithrin agwedd gadarnhaol at y Gymraeg.

Mae Maes Dysgu Datblygu'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen yn golygu:

- dysgu'r iaith yn raddol ac yn naturiol drwy brofiadau uniongyrchol
- cymorth a pharch
- sensitifrwydd
- canmoliaeth am ymdrech
- amgylchedd cyfoethog a bywiog
- hwyl a brwdfrydedd.

Bydd yn cynnwys datblygiad cynyddol yn sgiliau'r plant mewn:

- Llafaredd (siarad a gwrando)
- Darllen
- Ysgrifennu.

Gwrando a deall yw'r blociau adeiladu pwysig cyntaf tuag at gaffael unrhyw iaith. Fel cam cyntaf, dylai'r plant glywed y Gymraeg drwy Gymraeg achlysurol a thrwy rigymau, caneuon, gorchmynion, cyfarchion a storïau syml Cymraeg mewn sefyllfaoedd chwarae anffurfiol. Dylid cael arddangosfeydd rhyngweithiol (gan gynnwys labeli) sy'n helpu i ddatblygu cysyniadau cyfarwydd, megis trafod rhannau'r corff, lliwiau, rhifau ac ati. Bydd y plant yn magu hyder drwy ymatebion ymarferwyr: canmoliaeth, atgyfnerthu cadarnhaol ac ystumiau cefnogol.

Bydd plant yn profi sesiynau byr, strwythuredig, lle byddan nhw'n clywed ymadroddion a phatrymau iaith syml. Er enghraifft, byddan nhw'n clywed patrymau holi sylfaenol, fel 'ble mae…?' Dylid dod â'r rhain i mewn i'w chwarae.

Drwy gyfrwng cyfleoedd a gweithgareddau strwythuredig a digymell, dylai'r plant 'ymchwilio' i lyfrau a gwrando ar amrywiaeth o storïau, rhigymau a cherddi Cymraeg.

Dylai'r plant ddod yn gyfarwydd ag enwau Cymraeg y llythrennau, eu siapiau a'u seiniau. Drwy ddefnyddio sgiliau trosglwyddadwy, byddan nhw'n gwerthfawrogi natur seinegol y Gymraeg. Ymhellach ar hyd y continwwm dysgu, byddan nhw'n dechrau darllen ar eu pen eu hunain, gydag eraill ac i ymarferwyr. Gyda mwy o hyder a chynefindra â'r iaith, bydd y storïau'n datblygu o ran cymhlethdod y naratif a'r iaith.

Wrth i'r plant ddefnyddio'r iaith yn fwy hyderus, byddan nhw'n ymarfer eu Cymraeg mewn ffyrdd mwy digymell, gan gynnwys gwneud marciau. Wrth iddyn nhw ddatblygu ymhellach ar hyd y continwwm dysgu, byddan nhw, er enghraifft, yn ysgrifennu arwyddion dwyieithog i'w hardaloedd chwarae, mynegi gwybodaeth ffeithiol ac ysgrifennu i gynulleidfaoedd gwahanol ac at ddibenion gwahanol.

Dylai plant yn y Cyfnod Sylfaen feithrin y Gymraeg drwy gwricwlwm cyfannol, trwy chwarae strwythuredig a thrwy raglen ddatblygiadol a chynyddol strwythuredig benodol. Dylai'r sgiliau ieithyddol a ddysgir mewn un iaith gefnogi'r broses o feithrin gwybodaeth a sgiliau mewn iaith arall.

## Tuag at ddwyieithrwydd a datblygu sgiliau trosglwyddadwy

Dwyieithrwydd yw'r gallu i siarad, darllen ac ysgrifennu mewn dwy iaith. P'un a yw lleoliadau/ysgolion yn addysgu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, y nod yn y pen draw yw galluogi plant i chwarae rhan lawn mewn cymdeithas ddwyieithog ac i ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg hyd eithaf eu gallu. Mae *Dyfodol Dwyieithog: Datganiad Polisi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru* (2002) ac *Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog* yn amlinellu pwysigrwydd creu Cymru ddwyieithog. Yn y Deyrnas Unedig, mae gan blant yng Nghymru gyfle unigryw i adeiladu ar y sgiliau deuol hyn.

Dylai sgiliau ieithyddol a ddysgir mewn un iaith gefnogi'r broses o feithrin sgiliau a gwybodaeth mewn iaith arall. Gall defnyddio dwy iaith mewn gweithgaredd gynnig profiadau ysgogol a gwerthfawr. Yn aml, bydd y plant yn defnyddio'r ddwy iaith ar yr un pryd; er enghraifft, wrth ddefnyddio'r patrwm 'Dwi'n hoffi' efallai na fydd y plentyn yn gwybod enw gwrthrych yn Gymraeg, ond bydd yn defnyddio'r gair Saesneg, fel 'Dwi'n hoffi pineapple'.

Mae'r sgiliau a restrir ym Maes Dysgu Datblygu'r Gymraeg yn cyfateb i'r sgiliau ym Maes Dysgu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu. Mae'r sgiliau hyn yn drosglwyddadwy ym mhob un o'r Meysydd Dysgu, er enghraifft:

- gall plant ddangos eu bod yn deall cyfarwyddiadau sylfaenol a siarad yn glir, gan ddefnyddio geiriau, cyfarchion ac ymadroddion syml, yn Gymraeg a Saesneg
- gallan nhw edrych ar lyfrau Cymraeg a Saesneg fel darllenydd, gyda neu heb ymarferydd, a darllen eu gwaith eu hunain ac adnoddau printiedig eraill yn uchel
- gallan nhw arbrofi gyda gwneud marciau, ysgrifennu'n ddatblygol a dechrau ysgrifennu mewn ffordd gonfensiynol yn Gymraeg a Saesneg.

## Gweithgareddau dysgu

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi trosolwg o'r hyn a ddisgwylir wrth ddatblygu'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen ac, yn arbennig, trwy weithgareddau a gynlluniwyd a gweithgareddau digymell sy'n cefnogi datblygiad sgiliau llafaredd, darllen ac ysgrifennu Cymraeg. Mae'r rhain yn cyflenwi'r sgiliau mae plant yn eu meithrin ac yn eu datblygu ym Maes Dysgu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a'i ganllawiau cysylltiedig.

# Llafaredd

## Siarad

Wrth ddod i leoliadau/ysgolion mae gan blant amrywiaeth o brofiadau iaith a sgiliau iaith. Maen nhw'n cyrraedd ar ôl cael gwahanol brofiadau ieithyddol a diwylliannol. Gall y rhain effeithio ar eu cyraeddiadau cyfredol ac ar eu dealltwriaeth o bŵer sgiliau siarad, gwrando a chyfathrebu. Yn ystod y Cyfnod Sylfaen, dylai plant ddysgu defnyddio a chyfathrebu yn Gymraeg hyd eithaf eu gallu.

Er mwyn datblygu eu sgiliau Cymraeg ymhellach, bydd angen i blant gael profiadau synhwyraidd uniongyrchol a hwylus drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau siarad, gwrando a gweld, boed yn weithgareddau digymell neu strwythuredig, yn yr amgylchedd dysgu dan do ac yn yr awyr agored, drwy gydol y Cyfnod Sylfaen.

Mae siarad yn caniatáu i'r plant:

- gael eu deall
- defnyddio geiriau, cyfarchion ac ymadroddion syml
- ynganu'n gywir a defnyddio'r oslef briodol
- cymryd rhan mewn chwarae gweithredol
- cael hwyl gyda seiniau, geiriau, rhigymau a chaneuon
- ymateb heb eiriau neu drwy gyfrwng ymadroddion llafar byr
- enwi ac ynganu geirfa ac ymadroddion cyfarwydd
- ateb a gofyn cwestiynau sydd wedi'u seilio ar batrwm
- rhannu syniadau a phrofiadau
- defnyddio iaith briodol mewn gweithgareddau chwarae digymell a strwythuredig ac wrth gyfleu ystyr
- gan ddatblygu profiadau blaenorol, siarad yn hyderus
- disgrifio gwahanol emosiynau a theimladau
- gofyn am wybodaeth syml, ei deall a'i mynegi
- ymateb i amrywiaeth o symbyliadau.


Gallai'r gweithgareddau i gefnogi datblygiad sgiliau siarad gynnwys y canlynol:

- ymuno â hwiangerddi, caneuon actol a chanu
- adrodd storïau, rhannu ac adrodd gwybodaeth, dathliadau a digwyddiadau sy'n bwysig i blant
- amser cylch i roi cyfleoedd i blant drafod, siarad a gwrando ar syniadau, teimladau, emosiynau a digwyddiadau pobl eraill
- cyfleu negeseuon, rhannu cyfarchion fel rhan o drefn ddyddiol a rhoi cyfarwyddiadau i eraill
- disgrifio gwrthrychau ac arteffactau, trwy batrymau strwythuredig
- defnyddio symbyliadau i siarad ac ymateb, megis basgedi trysor a phypedau
- gweithgareddau chwarae rôl/chwarae dychmygus a drama sy'n annog plant i siarad/cyfathrebu â'i gilydd wrth wneud defnydd ymwybodol o symud, ystum a siarad
- gweithio gyda phartner neu mewn grŵp bach
- ymateb i ddrama maen nhw wedi gwylio, yn ogystal â drama maen nhw wedi bod yn rhan ohono fe
- defnyddio TGCh, er enghraifft recordio lleisiau/sgyrsiau'r plant a'u chwarae yn ôl i'w trafod.

## Enghraifft o chwarae rôl



Creoedd plant Blwyddyn 2 sefyllfa chwarae rôl Cymraeg eu hunain a gwnaethon nhw recordio eu hunain yn ei ddweud.



Role Play

| | |
|---|---|
| Tom | Bore da |
| Jess | Bore da |
| Tom | Pwy wyt ti? |
| Jess | Jess ydw i |
| Tom | Sut wyt ti? |
| Jess | Bendigedig |
| Tom | Hwyl |
| Jess | Hwyl |

## Gwrando

Fel gyda'r sgiliau eraill, bydd rhai plant yn dod i'r lleoliad/ysgol gyda sgiliau gwrando soffistigedig a datblygedig tra bydd eraill yn dechrau mewn lleoliad/ysgol heb y sgiliau hyn.

Mae rhai plant heddiw yn byw mewn amgylchoedd swnllyd gyda llawer o seiniau cefndir, megis teledu, cerddoriaeth a gemau electronig swnllyd, felly mae angen penodol i sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle i wrando ar leisiau cyfarwydd ac anghyfarwydd yn siarad Cymraeg i'w helpu i gynnal eu gwrando, eu canolbwyntio a'u meddwl.

Mae cyfleoedd i wrando yn galluogi plant i:

- ddangos eu bod yn deall cyfarwyddiadau sylfaenol yn Gymraeg
- ymateb yn syml i'r hyn maen nhw'n ei glywed mewn amgylchiadau cyfarwydd, gyda sylw a chanolbwyntio'n gynyddol
- ymateb yn briodol i ymadroddion a chyfarwyddiadau sy'n gynyddol gymhleth
- deall bod yr iaith maen nhw'n ei chlywed o'u hamgylch yn amrywio.

Mae llawer o weithgareddau yn cefnogi datblygiad sgiliau gwrando Cymraeg. Dylai plant wrando ar y Gymraeg yn cael ei siarad ac ymateb yn briodol mewn sefyllfaoedd cyfarwydd, gan ddefnyddio amrywiaeth o batrymau. Trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau gwrando, dylai plant allu gwahaniaethu rhwng seiniau a nodi'r gwahaniaeth rhwng un sain a'r llall. Dylid gwahaniaethu'r gweithgareddau i sicrhau bod y plant yn gwneud cynnydd.

Gallai rhai o'r gweithgareddau sy'n cefnogi datblygiad sgiliau gwrando gynnwys y canlynol:

- gwrando ar rigymau syml, hwiangerddi, caneuon, storïau a cherddi, caneuon a rhigymau actol yn Gymraeg ac ymuno â nhw
- enwi a didoli lluniau/geiriau yn ôl gwahanol feini prawf
- chwarae gemau syml sy'n cynnwys ailadrodd ac atgyfnerthu geirfa a phatrymau
- defnyddio canolfan wrando i roi cyfleoedd i blant wrando ar storïau cyfarwydd ac anghyfarwydd yn Gymraeg
- defnyddio amser cylch i ddarparu cyfleoedd i blant wrando ar eraill, ymarferwyr a'u cyfoedion
- gwrando ar ymwelwyr
- gwrando ar raglenni teledu i blant a storïau wedi'u hanimeiddio ar CD
- gweithgareddau cydweithredol sy'n annog plant i wrando ar ei gilydd.

# Darllen

Y ffordd orau o hybu llythrennedd cynnar yw trwy gyd-destunau ystyrlon a chyd-destunau go iawn ac amgylchedd lle ceir digon o ddeunydd printiedig. Ni fydd plant yn dysgu darllen ar wahân i sgiliau eraill megis siarad, gwrando ac ysgrifennu. Dylid defnyddio profiadau llafar plant yn Gymraeg i ddatblygu eu sgiliau darllen a dylid eu hannog i ddewis a defnyddio deunyddiau darllen Cymraeg. Dylai dysgu darllen yn Gymraeg fod yn hwyl i bob plentyn ac ni ddylid ei ruthro gan fod 'dysgu darllen' yn rhywbeth arbennig sy'n unigryw i bob plentyn.

Gall sawl ffactor ddylanwadu ar bryd mae plant yn barod i ddarllen gan gynnwys:

- eu profiadau ieithyddol a chymdeithasol blaenorol
- parodrwydd datblygiadol, sy'n gallu cynnwys datblygiad clybodol, gweledol a llafar
- datblygiad deallusol ac emosiynol.

Gallai'r gweithgareddau sy'n cefnogi parodrwydd i ddarllen mewn lleoliadau/ysgolion gynnwys:

- rhoi digon o gyfleoedd i blant drin ac edrych ar amrywiaeth o lyfrau mewn cornel dawel, gyda neu heb ymarferydd
- defnyddio llyfrau'r plant eu hunain (unigolion, grŵp neu ddosbarth) fel llyfrau darllen cyntaf
- defnyddio canolfan wrando/recordydd tâp i wrando ar stori a'i dilyn, gan ddefnyddio tapiau a llyfrau
- gwrando ar stori yn cael ei darllen wrth ddilyn y print
- defnyddio sachau stori/blychau stori i annog cyfraniad y rhieni/gofalwyr yn y cartref
- rhannu storïau a rhigymau mewn ffordd sy'n hwyl ac yn bleser
- defnyddio chwarae rôl a gweithgareddau drama i 'actio'r' rhannau a'r cymeriadau mewn storïau cyfarwydd
- adnabod geiriau a'u cysylltu â'r darluniau perthnasol
- rhannu geiriau yn llythrennau a'r sŵn y mae pob llythyren yn ei wneud
- gwybod mai cornel chwith uchaf y testun yw'r man cychwyn, ac mai o'r chwith i'r dde y bydd rhywun yn darllen
- gweithgareddau sy'n annog datblygiad clybodol a gweledol, dealltwriaeth mai o'r chwith i'r dde y bydd rhywun yn darllen a chael hwyl gyda llythrennau a geiriau

- gosod darluniau, digwyddiadau a dathliadau yn eu trefn, er enghraifft darluniau a rhaglenni TGCh
- diwrnodau llyfrau pan fydd plant yn gwisgo i fyny fel eu hoff gymeriad mewn llyfr
- ffeiriau llyfrau a bws llyfrau.

Wrth i blant wneud cynnydd trwy'r camau cynnar hyn yn eu parodrwydd darllen, dylen nhw gael profiad o:

- wrando ar/gwylio ymarferydd yn darllen o amrywiaeth o ffynonellau
- dilyn storïau a gaiff eu darllen iddyn nhw ac ymateb yn briodol
- gwrando ar eraill yn darllen deunydd dychmygus priodol
- darllen ar y cyd/darllen dan arweiniad
- cyfateb ciwiau darluniau i eiriau
- gosod darluniau yn eu trefn i greu stori
- edrych ar batrymau mewn geiriau a'u trafod
- siapiau llythrennau a geiriau
- defnyddio ac edrych ar eiriau cyffredin
- cyfateb geiriau
- rhannu geiriau yn llythrennau
- creu brawddegau syml, mewn parau, grwpiau ac fel unigolion
- camau cynnar atalnodi.

Gallai rhai o'r gweithgareddau sy'n cefnogi datblygiad sgiliau darllen cynnar yn Gymraeg gynnwys y canlynol:

- chwarae â jig-sos a gosod cardiau yn eu trefn
- gwrando ar storïau ar ganolfannau gwrando
- llunio llyfrau grŵp/dosbarth a llyfrau unigol ar gyfer cynulleidfa benodol, er enghraifft gwneud llyfr i ymwelwyr a phlant iau neu blant hŷn
- bod mewn amgylchedd rhyngweithiol â digon o ddeunydd printiedig, lle gall plant ddefnyddio ac adnabod geiriau a brawddegau, ac ati, yn eu gweithgareddau
- cael cornel ddarllen a bod â deunydd darllen ar gael yn yr awyr agored
- ymateb i storïau trwy weithgareddau chwarae rôl/drama
- defnyddio pypedau i greu storïau gan unigolion, grwpiau neu'r ddosbarth
- chwarae gemau megis 'loto', 'Pa un sy'n wahanol?', 'Beth yw'r gwahaniaeth?'
- defnyddio lluniau a rhaglenni TGCh
- ailadrodd storïau gyda chymorth ymarferydd

- adrodd storïau o gardiau lluniau a chartwnau
- treulio amser mewn 'cornel ddarllen' dawel i drin llyfrau (ffuglen a ffeithiol) maen nhw'n eu mwynhau, edrych arnyn nhw a'u darllen iddyn nhw eu hunain
- gweithgareddau darllen gyda'i gilydd, er enghraifft rhestrau siopa ar gyfer gweithgaredd coginio neu restr o adnoddau mae eu hangen ar gyfer prosiect
- gwrando ar ymwelwyr yn darllen iddyn nhw
- cyfleoedd i chwarae â llythrennau a geiriau, megis rhoi geiriau sydd wedi cael eu torri i fyny yn ôl at ei gilydd.

Dylai plant sy'n symud ar hyd y continwwm dysgu:

- edrych ar lyfrau a dangos diddordeb ynddyn nhw
- dechrau darllen yn annibynnol
- darllen amrywiaeth o destunau
- ailddarllen darnau maen nhw wedi'u mwynhau
- darllen eu gwaith eu hunain yn uchel
- dangos dealltwriaeth o'r prif syniadau neu ddigwyddiadau mewn storïau
- cael cyfleoedd i ddarllen ar draws y cwricwlwm ac at amrywiaeth o ddibenion.



Bydd amgylchedd ag ynddo fe ddigon o ddeunydd printiedig ac arddangosfeydd lliwgar, ynghyd ag ardaloedd i siarad a gwrando (yn ogystal â darllen ac ysgrifennu) yn annog cariad y plant tuag at eiriau, llyfrau a darllen.

## Ysgrifennu

Dylai plant gael digon o gyfleoedd i wneud marciau ac ysgrifennu mewn gweithgareddau ystyrlon. Dylid rhoi amrywiaeth o gyfleoedd i blant fwynhau gwneud marciau a datblygu eu sgiliau ysgrifennu yn Gymraeg. Trwy gymryd rhan mewn tasgau ysgrifennu â phwrpas penodol, bydd plant yn datblygu ac yn gwella eu sgiliau ysgrifennu wrth iddyn nhw symud ar hyd y continwwm dysgu. Er bod camau penodol y bydd plant yn mynd trwyddyn nhw wrth ddysgu ysgrifennu, hyd yn oed os ydyn nhw ar y cam gwneud marciau, mae'n bwysig sylweddoli y gallan nhw ysgrifennu at amrywiaeth o ddibenion. Dylai sgiliau iaith (trosglwyddadwy) a ddysgir mewn un iaith gefnogi datblygiad sgiliau a gwybodaeth mewn iaith arall. Ceir dadansoddiad isod o'r gwahanol gamau y mae plant yn symud drwyddyn nhw i ddod yn ysgrifenwyr hyderus a chymwys yn y Maes Dysgu hwn ac ym Maes Dysgu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu:

- gwneud marciau
- sgriblo di-eglurhad
- sgriblo ag eglurhad
- ymgais i ysgrifennu llythrennau
- gweithio o'r chwith i'r dde
- ysgrifennu gan ddefnyddio model
- gwneud rhestrau/nodiadau ac ati
- eu hymgais eu hunain i ysgrifennu brawddegau syml
- ysgrifennu brawddegau syml gan ddefnyddio llyfrau geiriau/geiriaduron
- ysgrifennu brawddegau syml gyda phriflythrennau, atalnodau llawn, gofynodau
- ysgrifennu storïau byr/adroddiadau gan ddefnyddio llyfrau geiriau/geiriaduron yn fwyfwy annibynnol
- ysgrifennu at amrywiaeth o ddibenion.

Mae amrywiaeth o brofiadau ysgrifennu yn Gymraeg sy'n gallu cael eu harwain gan y plant neu sy'n cael eu cynllunio a'u darparu ar gyfer plant y Cyfnod Sylfaen, yn yr amgylchedd dan do ac yn yr awyr agored, gan ddechrau â'r gweithgareddau ysgrifennu cynnar. Wrth i sgiliau ysgrifennu'r plant ddod yn eu blaen, dylen nhw gael cyfleoedd i ymarfer, datblygu a defnyddio'u sgiliau ysgrifennu ar draws y cwricwlwm ac mewn gweithgareddau chwarae, megis canolfan arddio neu fodurdy yn yr awyr agored, caffi, asiant teithio, neu siop anifeiliaid anwes ac ati. Mae'n bwysig bod y plant yn cael y fantais fwyaf posibl o'r gweithgareddau chwarae a'u bod yn deillio o brofiadau uniongyrchol cyn belled ag y bo modd.

Yn y Cyfnod Sylfaen, dylai'r plant gael cyfleoedd i ysgrifennu yn annibynnol ac ar y cyd mewn ymateb i amrywiaeth o symbyliadau ac at amrywiaeth o ddibenion. Gallai'r rhain gynnwys ysgrifennu:

- llythyrau/gwahoddiadau
- darnau creadigol syml
- cerddi/rhigymau
- i gyfleu gwybodaeth ffeithiol
- darnau byr sy'n mynegi barn, e.e. 'Rydw i'n hoffi ...'
- mynegi teimladau personol
- disgrifiad
- cyfarwyddiadau
- ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, gan gynnwys cyfoedion, ymarferwyr, aelodau o'u teulu a nhw eu hunain.



## Enghraifft o wneud marciau/ymgais i ysgrifennu llythrennau

Mae'r enghraifft isod yn dangos ymdrech un plentyn i ysgrifennu'r llythrennau 'Ca' ar ddau wahanol achlysur; unwaith wrth weithio yn y man celf a nes ymlaen wrth weithio y tu allan.



## Enghraifft o sgriblo di-eglurhad



## Enghraifft o sgriblo ag eglurhad

Roedd Rhys yn teimlo'n gyffrous iawn am y llun roedd e wedi ei wneud. Dyma ei lun. Fel y gwelwch, mae ynddo dalcen, gwallt, dwylo a chorff. Rwy'n cytuno gyda Rhys; rwy'n meddwl ei fod yn lun arbennig o dda.



## Enghraifft o ymgais i ysgrifennu llythrennau

**Mae'r astudiaeth achos hon yn dangos sut y cafodd y plant gyfleoedd yn yr awyr agored i ddatblygu sgiliau ffurfio llythrennau cywir gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau a defnyddiau naturiol.**

### Ffurfio llythrennau

Dechreuon ni'r gweithgaredd trwy gyflwyno'r llythyren 'c' i'r dosbarth cyfan. Yna cafodd y plant eu hannog i ffurfio'r llythyren 'c' gan ddefnyddio amrywiaeth o wahanol ddefnyddiau gan gynnwys dail a chonau pinwydden. Yna dewison nhw ddefnyddio ffyn paent i beintio'r llythyren 'c' a gwneud marciau yn yr 'hambwrdd reis a phys'.



## Enghraifft o wneud rhestrau/nodiadau




Cymerodd plant Blwyddyn 1 ran mewn chwarae rôl. Maen nhw wedi bod yn dysgu enwau llawer o fwydydd yn Gymraeg. Aeth y plant ati i greu rhestr siopa yn Gymraeg.




## Enghraifft o'u hymgais eu hunain i ysgrifennu brawddegau syml



Mae plant Blwyddyn 1 wedi bod yn siarad am eu hanifeiliaid anwes. Dewisodd rhai plant i'w dylunio ar y cyfrifiadur. Roedden nhw'n gallu ysgrifennu brawddegau syml yn Gymraeg.



## Enghraifft o ysgrifennu brawddegau syml gan ddefnyddio priflythrennau, atalnodau llawn a gofynodau




Roedd plant Blwyddyn 2 yn trafod gwahanol mathau o drafnidiaeth. Aeth rhai ymlaen i dynnu lluniau ohonyn nhw ac ysgrifennu amdanyn nhw yn Gymraeg.




**Caiff yr astudiaeth achos hon ei chynnwys yn y canllawiau ar Ddatblygiad Mathemategol hefyd. Caiff ei chynnwys yma i ddangos sut y darparwyd cyfleoedd i blant ymestyn eu sgiliau Datblygu'r Gymraeg yn ystod gweithgaredd gan ddefnyddio tegan rhaglenadwy.**

## Y tegan rhaglenadwy

Roedden ni eisiau cyflwyno'r plant i'r tegan rhaglenadwy, sy'n Grwydryn (Roamer) cynnar. Mae ganddo fe gyfres syml o fotymau sy'n rhaglennu'r tegan i symud ymlaen, yn ôl a throi i'r dde neu'r chwith. Hefyd, mae botwm 'Clirio Cof' arno fe sy'n dileu'r holl gyfarwyddiadau blaenorol a botwm 'Ewch'.

Roedden ni wedi bod yn edrych ar dai a chartrefi yn ystod y tymor ac roedd y plant wedi cael cynllun llawr mawr o fyngalo. Cafodd yr ystafelloedd eu labelu yn Gymraeg ac roedd drysau, waliau a choridorau. Roedd mat *Croeso* hefyd lle roedd rhaid i'r tegan rhaglenadwy ddechrau.



Cafodd y plant gyfle i raglennu'r tegan i symud i unrhyw un o'r ystafelloedd. Yn raddol, roedden nhw wedi dysgu o'i gilydd sawl gwaith oedd angen iddyn nhw wasgu'r botwm 'ymlaen' i gyrraedd rhai mannau ar y cynllun.



Yna cafodd y plant eu hannog i wneud eu cynlluniau eu hunain a phenderfynon nhw weithio mewn grwpiau bach. Cawson nhw set o labeli, rhai yn Saesneg a rhai yn Gymraeg, ac roedd rhaid iddyn nhw eu trefnu a'u gosod yn yr ystafell gywir yn y tŷ. Os nad oedden nhw'n deall gair, cawson nhw eu hannog i chwilio am y gair yn y banc geiriau Cymraeg sy'n cael ei gadw yn yr ystafell ddosbarth.

Ar ôl iddyn nhw wneud eu cynlluniau eu hunain, ysgrifennodd y plant gyfarwyddiadau ar gyfer ei gilydd er mwyn iddyn nhw allu rhaglennu'r tegan o gwmpas y tŷ. Roedden nhw wedi defnyddio'r geiriau Cymraeg yn awtomatig ar eu cynlluniau eu hunain. Bu'r tegan rhaglenadwy yn ganolbwynt mawr yn y dosbarth am gryn amser, gyda phawb yn defnyddio cynlluniau ei gilydd ac yn llunio cyfarwyddiadau cynyddol gymhleth.

Nododd yr athrawes fod yr astudiaeth achos hon yn enghraifft o'r math o weithgareddau oedd yn ddefnyddiol iddi hi wrth gyflwyno'r Gymraeg i blant heb lawer o gefndir Cymraeg os o gwbl. Roedd rhai o'r plant yn y dosbarth wedi bod mewn dosbarthiadau meithrin a derbyn dwyieithog, ond nid oedd un ohonyn nhw o gartref Cymraeg. Roedd gweithgareddau o'r fath yn ddefnyddiol fel ffordd o atgyfnerthu geirfa allweddol (yn yr achos hwn y geiriau ar gyfer yr ystafelloedd yn y tŷ) mewn ffordd gyffrous a llawn hwyl. Unwaith i'r plant ddefnyddio'r cynllun presennol wedi'i labeli yn Gymraeg, gwnaethon nhw barhau i ddefnyddio'r geiriau Cymraeg yn awtomatig ar eu cynlluniau eu hunain. Ni chafodd y geiriau Saesneg eu defnyddio wedyn drwy gydol y gweithgareddau wrth iddyn nhw barhau dros y dyddiau canlynol.

# Datblygu'r Gymraeg yn yr amgylchedd dysgu

## Rôl yr ymarferydd

Mae datblygu'r Gymraeg a sicrhau y caiff plant brofiadau da o'r iaith ac yn yr iaith yn faterion ar gyfer pob lleoliad/ysgol. Bydd angen i bob ymarferydd ymrwymo a chyfrannu, ynghyd â rhannu arbenigedd. Efallai y bydd yn ddefnyddiol cynnal archwiliad o ddarpariaeth bresennol y lleoliad/ysgol. Bydd hyn yn cynnwys nodi arbenigedd ymarferwyr a gofynion o ran adnoddau yn ogystal ag archwilio trefniadau cynllunio presennol yng ngoleuni'r gofynion ar gyfer Datblygu'r Gymraeg. Efallai y bydd yn ddefnyddiol i ymarferwyr godi ymwybyddiaeth y plant o'r defnydd o'r Gymraeg yn y lleoliad/ysgol ac yn y gymuned.

**Roedd sylw ar hap gan blentyn ym Mlwyddyn 1 yn fan cychwyn ar gyfer trafodaeth ddosbarth ar y defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol ac yn y gymuned.**

### Codi ymwybyddiaeth o'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol ac yn y gymuned

Ymwelodd y cyn-bennaeth â'r ysgol un bore ac roedd un bachgen yn digwydd ei glywed yn siarad Cymraeg â'r ysgrifenyddes. Roedd y plentyn wedi synnu bod y cyn-bennaeth yn gallu ac yn dewis cyfathrebu yn Gymraeg. Ychydig iawn o Gymraeg oedd y rhan fwyaf o'r plant yn ei chlywed y tu allan i'r ysgol a chredai'r athrawes felly y dylai godi eu hymwybyddiaeth o sefyllfaoedd lle y caiff y Gymraeg ei defnyddio.

Wrth drafod gyda'r plant, dechreuodd restru'r rhai a oedd yn siarad Cymraeg yn yr ysgol. Roedd y trosolwg hwn yn cynnwys pob ymarferydd, staff cynorthwyol a staff cinio, y gofalwr, unrhyw athrawon cyflenwi, ymwelwyr rheolaidd a hyd yn oed ffotograffydd yr ysgol. Yna gwnaethon nhw restru pobl eraill yn y gymuned y gallai'r plant siarad Cymraeg â nhw. Arweiniodd hyn at nodi arwyddion dwyieithog yn yr ysgol ac yn yr ardal.

Cafodd y plant eu synnu o weld cynifer o sefyllfaoedd lle y gallen nhw ddefnyddio'r Gymraeg, ffactor pwysig wrth eu hannog i ddod yn hyfedr yn yr iaith mewn cymuned Saesneg ei hiaith yn bennaf. Arweiniodd hyn at benderfynu fel ysgol gyfan i anfon nodiadau at rieni/gofalwyr oedd yn cynnwys ymadroddion a chyfarchion dwyieithog, fel y bo'n briodol.

Gan fod Cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn gymwys i blant 3 i 7 oed, mae'n hanfodol y ceir parhad o ran cynllunio ar gyfer datblygiad plant. Mae angen i ymarferwyr fod yn ymwybodol o'r hyn a gafodd ei addysgu yn y flwyddyn flaenorol ac o gyrhaeddiad plant unigol.

Er mwyn gwerthuso'r ddarpariaeth bydd angen i bob ymarferydd arsylwi sgiliau canolbwyntio'r plant, i ba raddau maen nhw'n cymryd rhan a'u hagweddau at ddysgu, y ffordd maen nhw'n rhyngweithio mewn gwaith grŵp a'u gallu i weithio'n annibynnol. Gall ymgynghori â phlant a rhieni/gofalwyr gyfrannu at y broses o werthuso'r rhaglen ddysgu hefyd.

## Creu amgylchedd dwyieithog

Dylai oedolion hybu cynefindra'r plant â'r Gymraeg drwy sicrhau amgylchedd dwyieithog, dan do ac yn yr awyr agored, gyda llyfrau Cymraeg a dwyieithog yn y gornel lyfrau, arwyddion Cymraeg a dwyieithog, caneuon Cymraeg yn y casgliad o dapiau a CDau, yn ogystal â CD-ROMau/fideos a phosteri Cymraeg a dwyieithog (ar gyfer gemau mathemateg yn ogystal ag i hybu'r iaith). Bydd yr adnoddau hyn yn darparu ar gyfer amrediad o anghenion plant y Cyfnod Sylfaen ar draws y continwwm.

Bydd profiadau'r plant a'u gwaith yn eu lleoliadau/ysgolion yn cael eu hadlewyrchu yn eu harddangosfeydd. Mae angen i'r Gymraeg fod yn weladwy iawn mewn arddangosfeydd o'r fath drwy gydol y cyfnod. Mae modelau o iaith dda yn bwysig felly dylai'r arddangosfeydd gynnwys geiriau a brawddegau yn eu cyd-destun ac nid dim ond rhestrau o lythrennau a geiriau.

Mae agweddau at iaith yn cael eu gwella drwy weld a chlywed iaith. Mae gan Gymru gyfoeth o brofiad mewn datblygu amgylcheddau sy'n ymddangos yn ddwyieithog: arwyddion ffyrdd, gwybodaeth mewn archfarchnadoedd, hysbysiadau cyhoeddus o bob math, enwau corfforaethol a llythyrau swyddogol. Gall hybu dwyieithrwydd drwy ddefnyddio arwyddion a labeli deniadol fod yn effeithiol iawn.

Bwrdd ysgrifennu
Writing table

Dewisiwch lyfr
Choose a book

Mae darllen yn hwyl
Reading is fun

Creu a gwneud
Making and creating

Offer tywod a dŵr
Sand and water equipment



## Defnyddio'r Gymraeg yn y drefn ddyddiol

### Amser cofrestru

Mae cofrestru yn weithgaredd dyddiol ac mae'n hawdd cofrestru yn Gymraeg. Mae'n arfer sydd wedi'i wreiddio mewn trefn ragweladwy: rhoi enwau, ymateb, iaith wedi'i rhagweld, defnyddio'r patrymau a ddisgwylir ac ati. Mae'r rhain yn ffactorau pwysig wrth ddysgu iaith.

### Amser tywydd

Mae trafod y tywydd a'r tymhorau yn aml yn ddigwyddiad rheolaidd mewn lleoliadau gyda phlant bach. Caiff y plant eu hannog i ymateb i Gymraeg drwy roi ciwiau a chliwiau fel siartiau tywydd darluniadol a dwyieithog:

| | |
|---|---|
| Mae'n braf | *It's fine* |
| Mae'n oer | *It's cold* |
| Mae'n bwrw glaw | *It's raining* |
| Mae'n bwrw eira | *It's snowing* |
| Mae'n wyntog | *It's windy* |
| Mae'n stormus | *It's stormy* |
| Mae'n niwlog…Dwi'n gweld dim | *It's cloudy…I can't see anything* |

Bydd plant sydd â sgiliau dwyieithog mwyaf sefydledig yn ymarfer eu sgiliau Cymraeg, er enghraifft, drwy greu eu siartiau tywydd dwyieithog eu hunain gan ddefnyddio, Clipart, TGCh a CD-ROMau, lle bo'n bridol.

### Amser tacluso

Bydd y plant yn cael cyfleoedd i ymateb i gyfarwyddiadau Cymraeg drwy dacluso teganau ac adnoddau.

Gall y plant ganu caneuon a chwarae gêm iaith wrth dacluso:

> Mae'r ceir bach yn mynd yn y bocs. Ble mae'r bocs?
> *Yes, Lucy, thank you. There's the box for the little cars –*
> y ceir bach yn y bocs.

Byddan nhw'n clywed ac yn ymarfer Cymraeg sy'n ymwneud â pharu a didoli, yn ogystal â threfnu'r lleoliad yn gyffredinol.

### Amser cylch

Yn ystod amser cylch, gall y plant gael cyfleoedd i ymateb i Gymraeg ac i ymarfer Cymraeg drwy gyfarchion ffurfiol ac anffurfiol, yn ogystal â thrwy ddysgu am emosiynau a theimladau.

### Amser cinio

Mae'n hollbwysig bod yr holl ymarferwyr yn y lleoliadau/ysgolion yn cael eu cynnwys yn ethos y Cyfnod Sylfaen. Dylai'r staff amser cinio gael eu hannog i ymarfer Cymraeg gyda'r plant.

### Amser dweud ffarwel

Mae yna gyfleoedd ar ddiwedd y dydd/sesiwn i roi hwb i ddefnyddio'r Gymraeg drwy ganeuon a gweithredoedd. Dylai'r rhain gael eu gwahaniaethu er mwyn adlewyrchu'r datblygiad yn sgiliau Cymraeg y plant.

Mewn un lleoliad, ar ddiwedd y dydd roedd y plant yn canu y gân ganlynol:

Hwyl fawr ffrindiau,
Hwyl fawr ffrindiau,
Hwyl fawr ffrindiau,
Mae'n amser dweud ffarwel.

**Un o elfennau allweddol y Cyfnod Sylfaen yw cyflwyno pob Maes Dysgu mewn modd cyfannol, ac nid yw Datblygu'r Gymraeg yn eithriad.**

## Defnyddio'r Gymraeg yn ein harferion bob dydd

Rydyn ni'n defnyddio geiriau Cymraeg yn lle rhai Saesneg ble bynnag y gallen ni, er enghraifft wrth chwarae gemau mathemateg rydyn ni'n defnyddio geiriau Cymraeg ar gyfer rhifau hyd at 20. Yn ddiweddar gwnaethom ni graff dosbarth a'i labelu'n Gymraeg a Saesneg. Mae'r arddangosfeydd hefyd yn cynnwys y ddwy iaith, ond yn hytrach na chyfieithiadau uniongyrchol rydyn ni'n defnyddio labeli sydd yn fy marn i yn ychwanegu at yr arddangosiad.


Yn ddiweddar, perfformiodd y dosbarth wasanaeth o flaen yr ysgol gyfan, yn ogystal â'u rhieni/gofalwyr. Roedd y plant wedi penderfynu beth roedden nhw am ei gynnwys yn y gwasanaeth a beth roedden nhw am ei ddweud a pha iaith roedden nhw am ei defnyddio. Ar ôl y gwasanaeth cefais i lawer o sylwadau gan rieni/gofalwyr (a chydweithwyr Cyfnod Allweddol 2) am faint o Gymraeg roedd y plant wedi'i siarad yn ystod y gwasanaeth. Gwnaethon nhw sôn am ba mor gyfforddus roedd y plant yn ymddangos wrth sefyll o flaen cynulleidfa a siarad Cymraeg.

Mae'r plant hyn yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu ni waeth pa iaith a ddefnyddir. Maen nhw'n gallu gweld y Gymraeg fel rhywbeth 'byw' a defnyddiol, yn hytrach na 'phwnc' ar wahân.

## Enghraifft o ddefnyddio TGCh â Chymraeg yn ein harferion bob dydd



Mae plant Blwyddyn 2 wedi bod yn dysgu am 'Deithio a thrafnidiaeth'. Dewisodd rhai o'r plant ddylunio graff ar y cyfrifiadur yn Gymraeg.



## Ategu dysgu – caneuon a rhigymau

Fel ym mhob math o addysgu iaith, mae defnyddio rhigymau sy'n cynnwys rhythm cryf, ailadrodd, cyflythrennu a homoffonau yn atgyfnerthu datblygiad iaith ac ynganu.

Mae canu hefyd yn ffordd dda i'r plant ymarfer seiniau iaith newydd a'i hynganu. Mae'r gallu i gydganu fel grŵp yn cynnig diogelwch iddyn nhw – mae'n llawer haws canu mewn torf nag ar eich pen eich hun.

**Yn yr astudiaeth achos hon mae ymarferydd yn atgofio dull a ddefnyddiwyd i sicrhau bod plant yn cofio geiriau neu ymadroddion Cymraeg newydd i'w defnyddio yn y dyfodol.**

### Canu caneuon i ddysgu geiriau newydd

Trwy greu caneuon sy'n ailadrodd y geiriau newydd, mae'r plant yn dod yn gyfarwydd â chreu eu caneuon eu hunain ac maen nhw'n ddigon bodlon eu hailadrodd nhw drosodd a throsodd.

Tonau cyfarwydd sy'n cael eu defnyddio, fel 'The farmer's in his den', 'The grand old Duke of York' a 'Here we go around the mulberry bush'. Cafodd y geiriau canlynol eu creu gan blentyn a'i chanu ar dôn 'The farmer's in his den'.

Mae'r ddeilen fel llaw fawr,
Mae'r ddeilen fel llaw fawr,
Hei ho, hei di ho,
Mae'r ddeilen fel llaw fawr.

Mae gan y Gymraeg gyfoeth o rigymau, hwiangerddi a chaneuon traddodiadol i blant. Mae'r rhain yn rhan bwysig o dreftadaeth holl blant Cymru.

Bydd plant yn y Cyfnod Sylfaen yn gwrando ar rai o'r caneuon yma, eu canu, a'u dysgu, a hynny fel rhan annatod o drefn ddyddiol y lleoliadau/ysgolion. Wrth i'r plant ddod yn fwy cyfarwydd â'r iaith, byddan nhw'n canu caneuon ar ffurf fwy cymhleth ac ymestynnol.

## Enghraifft o ganu yn yr Eisteddfod



Oherwydd bod y plant wedi dysgu llawer o eirfa bwyd yn Gymraeg, ar gyfer yr Eisteddfod roedden nhw wedi dewis canu 'Be sy' yn y fasged siopa?'

## Ategu dysgu – gemau iaith

Dylai defnyddio gemau iaith i ddatblygu'r Gymraeg gael ei hybu mewn awyrgylch hwyliog lle nad yw'r plant yn sylweddoli eu bod yn gweithio ac eto i gyd yn dysgu llawer iawn.

**Yn yr astudiaeth achos hon mae ymarferydd yn disgrifio sut mae plant yn cynyddu eu geirfa Gymraeg tra'n dysgu cân newydd.**


### 'Pwy wyt ti?'

Rydym ni'n canu'r gân 'Pwy wyt ti?' ac anogwch y plant i bwyntio at un plentyn sydd wedyn yn canu ei enw ef/ei henw hi, 'Huw ydw i' .

Gellir dysgu enwau'r lliwiau trwy ddefnyddio dull tebyg. Pwyntiwch at wrthrychau mewn llyfrau ac yn amgylchedd dan do ac awyr agored y plant a gofynnwch:

'Pa liw?'

'Dwi'n hoffi melyn, coch…'



# Cynllunio

Mae saith Maes Dysgu wedi cael eu pennu i ddisgrifio cwricwlwm priodol ar gyfer plant 3 i 7 oed sy'n cefnogi datblygiad plant a'u sgiliau. Mae'n rhaid i'r Meysydd Dysgu hyn gyd-fynd a chydweithio â'i gilydd i ddarparu dull trawsgwricwlaidd o greu cwricwlwm perthnasol ac ymarferol. Ni ddylid eu trin ar wahân.

Rhoddir pwyslais ar ddatblygu sgiliau plant ar draws y Meysydd Dysgu er mwyn sicrhau bod plant ifanc yn dysgu mewn modd addas ac integredig.

Rhaid cael cydbwysedd rhwng dysgu strwythuredig drwy weithgareddau a gychwynnir gan y plentyn a'r rhai dan arweiniad yr ymarferwyr. Mae cwricwlwm sydd wedi'i gynllunio'n dda yn rhoi cyfleoedd i blant ymwneud yn greadigol â'u dysgu eu hunain, ac mae'n rhaid iddo adeiladu ar yr hyn maen nhw'n ei wybod ac yn gallu ei wneud eisoes, eu diddordebau a'r hyn maen nhw'n ei ddeall. Mae dysgu gweithredol yn gwella ac yn estyn datblygiad y plentyn.

Dylai Cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen fod yn hyblyg er mwyn galluogi ymarferwyr i gael cyfleoedd i gynllunio a darparu cwricwlwm arbrofol, ar gyfer plant sydd ar gam cynnar eu datblygiad ac i'r rhai sy'n fwy galluog. Mae plant angen cwricwlwm eang, cytbwys sydd wedi'i wahaniaethu.

## Cynllunio ar gyfer Datblygu'r Gymraeg

Dylai plant yn y Cyfnod Sylfaen feithrin iaith drwy raglen gynyddol gan ddatblygu'r Gymraeg bob dydd yn y lleoliad/ysgol. Bydd hyn yn cynnwys:


- integreiddio'r Gymraeg yn naturiol i weithgareddau bob dydd y mae plant yn rhan ohonyn nhw yn y lleoliadau/ysgolion
- amser strwythuredig wedi'i gynllunio ar gyfer Datblygu'r Gymraeg.

Caiff amrywiaeth o strategaethau eu hargymell wrth addysgu'r Gymraeg. Anogir ymarferwyr i ddefnyddio eu barn a'u harbenigedd i lywio penderfyniadau am y dewis o ddulliau sydd fwyaf addas i amgylchiadau ac anghenion unigol plant, y mae dysgu iaith newydd yn brofiad arbennig ac unigryw iddyn nhw.

## Enghraifft o symbyliad ar gyfer cynllunio



Yn y dosbarth derbyn, cafodd y plant eu cymryd i fferm leol fel symbyliad i gyd-destun dysgu, gyda'r thema 'Draw ar y fferm'. O ganlyniad i hyn, cyflwynir y plant i enwau'r anifeiliaid fferm yn Gymraeg.



## Datblygu'r Gymraeg: Cynllun wythnos

**Ffocws: Ar y fferm**

Amcan dysgu: cynyddu geirfa Gymraeg plant drwy gyflwyno enwau Cymraeg anifeiliaid fferm.

<table>
<tr><th>Dydd</th><th>Gweithgaredd</th><th>Adnoddau</th><th>Gwerthusiad</th></tr>
<tr><td>Dydd Llun</td><td>Paratoi'r plant at ymweliad i'r fferm drwy gyflwyno enwau'r anifeiliaid yn Gymraeg iddyn nhw a chwarae ein gêm paru anifeiliaid y fferm. Canu ein cân fferm yn ystod amser cylch.</td><td>Lluniau a labeli o anifeiliaid fferm, CD o gerddoriaeth Gymraeg</td><td>Roedd y plant yn edrych ymlaen yn eiddgar at eu taith i'r fferm.</td></tr>
<tr><td colspan="4">Bydd y gweithgaredd hwn yn cefnogi'r cysyniad mathemategol o baru ond hefyd yn datblygu sgiliau darllen a sgiliau gweledol drwy baru'r enw i'r llun.</td></tr>
<tr><td>Dydd Mawrth</td><td>Plant yn ychwanegu at eu gwybodaeth o'r gwahanol enwau ar anifeiliaid fferm drwy ymweld â'n fferm leol.</td><td>Ymweliad dydd â'r fferm, clipfyrddau, papur, deunyddiau gwneud marciau er mwyn gwneud nodiadau, camera digidol</td><td>Roedd yr ymweliad hwn o fudd mawr iawn i bob un o'r plant gan iddyn nhw nid yn unig ddatblygu eu Cymraeg ond hefyd ychwanegu at eu gwybodaeth am nodweddion gwahanol anifeiliaid.</td></tr>
<tr><td colspan="4">Mae gan yr ymweliad hwn nifer o gysylltiadau trawsgwricwlaidd gan gynnwys datblygiad personol a chymdeithasol yn ogystal ag ychwanegu at eu gwybodaeth o anifeiliaid fferm (pethau byw).</td></tr>
</table>

| Dydd | Gweithgaredd | Adnoddau | Gwerthusiad |
|---|---|---|---|
| Dydd Mercher<br><br>Dydd Iau | Atgyfnerthu enwau'r anifeiliaid drwy gael y plant i greu/tynnu llun o a labelu pedwar o'r hoff anifeiliaid a welsant ar y fferm (gwneir y gweithgaredd hwn dros ddau ddiwrnod i roi'r rhyddid iddyn nhw ddewis y cyfrwng hoffen nhw ei ddefnyddio). | Rhaglen tynnu llun TGCh, paent, papur (lliwiau a meintiau amrywiol), craeonau, deunyddiau gludwaith | Roedd pob un o'r plant yn fodlon ar eu lluniau/modelau ac maen nhw wedi creu arddangosfa wych yn ein hystafell ddosbarth. |
| Trwy ddefnyddio TGCh a deunyddiau modelu i dynnu lluniau o'u hanifeiliaid, bydd y gweithgaredd hwn yn helpu i ddatblygu sgiliau llawdrin manwl plant. Bydd y ffaith y cânt ddewis eu cyfrwng eu hunain yn eu hannog i wneud penderfyniadau. Hefyd mae'r gweithgaredd hwn yn eu hatgoffa o enwau rhifau 1–4 yn Gymraeg. | | | |
| Dydd Gwener | Gadawyd dydd Gwener yn wag a chaiff ei gwblhau ar ôl trafod â'r plant pa weithgareddau hoffen nhw gynllunio ar eu cyfer yn dilyn yr ymweliad. | | |

Ymysg y gweithgareddau y gofynnodd y plant amdanyn nhw roedd creu ardal chwarae rôl buarth fferm yn yr awyr agored. Gofynnodd rhai o'r plant am gael gwneud mygydau ac roedd eraill yn hapus i chwarae â'r adnoddau fferm byd bach oedd yn yr ystafell ddosbarth yn barod.

# Datblygu'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm

Er mwyn darparu'n effeithiol ar gyfer Cymraeg, mae angen cynllunio gofalus ar draws pob Maes Dysgu i sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd i ddatblygu, cymhwyso ac ehangu eu sgiliau cyfathrebu, siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu drwy gyfrwng y Gymraeg a thrwy amrywiaeth o gyfryngau.

Bydd gweithgareddau ac adnoddau penodol yn hybu'r Cwricwlwm Cymreig ac yn cynnig cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen. Ceir llawer o gyfleoedd i ddatblygu'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth yn y Meysydd Dysgu eraill ac yn y gwahanol feysydd addysgu yn y lleoliad/ysgol, er enghraifft:

**Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol**

- drwy drafod materion moesol dylai'r plant gael cyfleoedd i ddatblygu ac ymateb i gwestiynau drwy gyfrwng y Gymraeg, er enghraifft gan ddefnyddio ymadroddion a brawddegau emosiynol i ddisgrifio sut maen nhw'n teimlo
- drwy eu chwarae rôl/chwarae dychmygus gallai'r plant ymarfer eu hymatebion ynglŷn â rhannu a gofalu, er enghraifft 'diolch', 'os gwelwch yn dda'

**Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu**

- gallai gwrando ar rigymau, caneuon a storïau Cymraeg, ac ymuno â nhw, gael ei ymestyn i gael y plant i greu a darllen storïau syml
- drwy ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau a TGCh, a thrwy eu chwarae, gall y plant gyfathrebu ac ymarfer eu sgiliau ysgrifennu gan ddefnyddio geirfa Gymraeg fel man cychwyn

**Datblygiad Mathemategol**

- dylai'r plant gael cyfleoedd i wrando ar rigymau cyfrif ac ymuno i'w canu; gall hyn gael ei ymestyn i gael y plant i ddatrys problemau mathemateg pen perthnasol yn Gymraeg, er enghraifft 'tri adio dau'
- dylai'r plant gael profiad o drafod siapiau 3-D a 2-D a dechrau adeiladu eu geirfa i enwi a disgrifio'r siapiau yn eu cyd-destun

### Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

- dylai'r plant arsylwi ar yr arwyddion Cymraeg yn eu hamgylchedd a datblygu'r eirfa Gymraeg a defnyddio ymadroddion a brawddegau Cymraeg wrth chwarae
- drwy ddefnyddio llyfrau cyfeirio, ffynonellau a TGCh Cymraeg, dylai'r plant ddarganfod lleoedd yn y byd ac ymchwilio iddyn nhw

### Datblygiad Corfforol

- wrth gymryd rhan mewn gemau a gweithgareddau, gallai'r plant roi a derbyn cyfarwyddiadau Cymraeg, er enghraifft anfon y plant i gyfeiriad penodol gyda'r cyfarwyddyd 'ewch at y wal goch'
- gallai'r plant fynegi yn Gymraeg sut maen nhw'n teimlo ar ôl gweithgaredd egniol

### Datblygiad Creadigol

- gallai'r plant wrando ar wahanol fathau o gerddoriaeth Gymraeg, megis baledi a roc, ac ymateb iddyn nhw
- i ddechrau, gallai'r plant ddilyn a rhoi cyfarwyddiadau symud syml yn Gymraeg, gan symud ymlaen i ddysgu dawnsfeydd gwerin Cymreig syml.

# Cynnydd mewn dysgu

## Llafaredd

Drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau strwythuredig a digymell yn Gymraeg sy'n hybu gweithgareddau siarad, gwrando a gwylio, dylai'r plant wneud cynnydd yn eu gallu i:

- wrando ar rigymau, caneuon a storïau syml ac ymuno â nhw
- ymateb yn syml i'r hyn maen nhw wedi'i glywed mewn amgylchiadau cyfarwydd
- gwylio a gwrando'n ofalus
- datblygu geirfa briodol a'i defnyddio wrth chwarae
- defnyddio geiriau, cyfarchion ac ymadroddion syml wrth siarad â chyfoedion ac ymarferwyr
- adrodd neu ganu cerddi a chaneuon Cymraeg
- mynegi teimladau, hoff bethau a chas bethau, ac anghenion, er enghraifft 'mae'n oer', 'ga i fynd i chwarae'
- siarad, gan amnewid geiriau mewn patrymau cyfarwydd, er enghraifft 'Rydw i'n hoffi afal/banana/oren', a chyfleu profiadau personol a dychmygus drwy ddefnyddio patrymau iaith cyfarwydd, er enghraifft 'rydw i'n mynd i ...' neu 'es i ...'
- cyflwyno gwybodaeth syml, er enghraifft 'Siôn ydw i', a siarad gan ynganu a goslefu'n gywir
- gwrando ar leisiau cyfarwydd ac anghyfarwydd, gan ddefnyddio amrywiaeth o symbyliadau gweledol a chlyweledol, gan gynnwys TGCh
- gwrando ar ymadroddion a chyfarwyddiadau mwyfwy cymhleth ac ymateb fel y bo'n briodol
- cymryd rhan mewn profiadau dysgu digymell a strwythuredig, gan gynnwys gweithgareddau deialog a chwarae rôl, wrth siarad yn gywir ac yn glir
- gweithio fel unigolion, parau a grwpiau bach, gan ddefnyddio geiriau, ymadroddion a brawddegau mwy cymhleth wrth siarad.

## Darllen

Dylai'r gweithgareddau Cymraeg drwy gydol y Cyfnod Sylfaen alluogi'r plant i fwynhau llyfrau a gwneud cynnydd yn eu gallu i:

- ddilyn storïau sy'n cael eu darllen iddyn nhw ac ymateb fel y bo'n briodol; edrych ar lyfrau gyda neu heb ymarferydd a dangos diddordeb yn y cynnwys a'i fwynhau; trin a thrafod llyfr fel darllenydd; gallu dilyn storïau o luniau
- bod yn fwy ymwybodol o wahanol fathau o lyfrau:
  - llyfrau lluniau, cerddi a storïau (y rhai sydd â chefndir cyfarwydd â'r rhai sydd wedi'u seilio ar fyd y dychymyg neu ffantasi)
  - storïau, cerddi a siantau sy'n cynnwys iaith ragweladwy ar batrwm pendant
  - ailadrodd chwedlau gwerin a chwedlau tylwyth teg traddodiadol, yn ogystal â storïau a cherddi o Gymru (gan gynnwys addasiadau)
- gwrando ar stori'n cael ei darllen a dilyn y print
- darllen, a gwrando ar bobl eraill yn darllen deunyddiau dychmygus priodol sy'n cynnwys:
  - rhyddiaith a barddoniaeth i blant bach
  - gwaith wedi'i ysgrifennu i ddysgwyr
  - adnoddau gwybodaeth
- gwerthfawrogi arwyddocâd y gair printiedig a'r berthynas rhwng symbolau printiedig a phatrymau seiniau
- defnyddio cyd-destun i ddirnad ystyr geiriau cyfarwydd a datgodio geiriau newydd drwy gyfrwng cliwiau mewn lluniau, seiniau llythrennau a ffurf y geiriau
- darllen yn uchel eu gwaith eu hunain ac adnoddau printiedig eraill yn gywir
- ymateb yn syml i gwestiynau'r ymarferydd
- ailddarllen darnau sydd wedi'u mwynhau a dysgu darnau ar y cof
- cyfleu cynnwys yr hyn maen nhw wedi'i ddarllen
- darllen amrywiaeth eang o adnoddau printiedig ac adnoddau TGCh a'u defnyddio at wahanol ddibenion
- dewis o blith amrywiaeth eang o lyfrau ac ymgolli ynddyn nhw.

## Ysgrifennu

Dylai'r gweithgareddau Cymraeg drwy gydol y Cyfnod Sylfaen alluogi'r plant i fwynhau arbrofi gyda chyfathrebu ysgrifenedig a gwneud cynnydd yn eu gallu i:

- wneud marciau a chyfathrebu drwy ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau
- dechrau cynhyrchu darnau o ysgrifennu cynnar, gan ddatblygu rhai llythrennau yn gywir
- deall bod ysgrifennu yn gyfrwng cyfathrebu; deall y cysylltiadau rhwng lleferydd ac iaith; gwahaniaethu rhwng print a lluniau; deall gwahanol ddibenion a swyddogaethau iaith ysgrifenedig fel cyfrwng i gofio, cyfleu, trefnu a datblygu syniadau a gwybodaeth
- deall y gall ysgrifennu fod yn bleser
- arbrofi gyda gwneud marciau; mynegi syniadau er mwyn i sgrifellwr eu hysgrifennu; adnabod natur alffabetig ysgrifennu a gwahaniaethu rhwng llythrennau
- cyfathrebu drwy ddefnyddio symbolau, lluniau a geiriau
- dechrau ysgrifennu mewn ffordd gonfensiynol, gan gyfathrebu drwy ddefnyddio geiriau, ymadroddion a brawddegau byr
- chwarae ag iaith, fel ffordd i ddatblygu eu diddordeb yn yr iaith
- ysgrifennu mewn ymateb i amrediad o symbyliadau
- ysgrifennu darnau creadigol syml
- ysgrifennu i gyfleu gwybodaeth ffeithiol
- ysgrifennu darnau byr sy'n mynegi barn, er enghraifft 'Rydw i'n hoffi…'
- ysgrifennu ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol, gan gynnwys cyfoedion, ymarferwyr, aelodau o'u teulu a nhw eu hunain
- gwella ansawdd eu gwaith ysgrifenedig gydag ymarferwyr
- defnyddio geiriadur syml neu TGCh wrth ymgymryd â gwahanol dasgau
- cydnabod pwysigrwydd atalnodi fel ffordd i fynegi ystyr wrth ddefnyddio priflythrennau, yr atalnod llawn, a'r gofynod yn ôl yr angen

- sillafu geiriau syml yn gywir a gwirio'u sillafu drwy ddefnyddio geiriadur neu TGCh
- datblygu eu llawysgrifen – dal pensil yn gyffyrddus er mwyn meithrin arddull ddarllenadwy yn unol â chonfensiynau Cymraeg ysgrifenedig, gan gynnwys:
  - ysgrifennu o'r chwith i'r de ac o frig y tudalen i'r gwaelod
  - dechrau a gorffen llythrennau yn gywir
  - sicrhau bod maint a siâp eu llythrennau yn gyson
  - sicrhau bod y gofod rhwng llythrennau a geiriau yn gyson
  - defnyddio'r ffyrdd confensiynol i ffurfio llythrennau, yn briflythrennau ac yn llythrennau bach
  - adeiladu ar eu gwybodaeth o sut i ffurfio llythrennau i gysylltu llythrennau a'u troi'n eiriau
  - cyflwyno'u hysgrifennu yn glir ac yn daclus er mwyn cyfleu eu hystyr yn effeithiol.

# Gwybodaeth a chysylltiadau defnyddiol

Mae'r adran hon yn cynnwys rhestr gynhwysfawr o raglenni sy'n ystyried parhad o ran cynllunio ar gyfer datblygiad/dilyniant plant.

Mae'r mwyafrif o'r awdurdodau addysg lleol yn datblygu a chynnig cyrsiau hyfforddi i gefnogi Datblygu'r Gymraeg. Mae'r Athrawon Bro yn y mwyafrif o'r awdurdodau yn ymwneud â lleoliadau/ysgolion unigol yn ogystal ag arwain cyrsiau canolog.

Cyn defnyddio unrhyw wefan gyda phlant mae'n hanfodol bod yr ymarferydd yn mynd i'r wefan ymlaen llaw. Dylai wneud hyn i sicrhau bod yr wybodaeth/deunydd y mae'n bwriadu eu defnyddio yn:

- ategu dysgu'r plant
- perthnasol i'r gwaith a gaiff ei archwilio
- priodol i'r plant.

**AALl Caerdydd**

Mae'r ffeil y Blynyddoedd Cynnar yn cynnwys addysgu a methodoleg iaith a chyfoeth o ganeuon, rhigymau, chwarae rôl ac awgrymiadau ymarferol ar ddatblygu'r Cwricwlwm Cymreig.
www.caerdydd.gov.uk

**AALl Conwy**

Pedair Sach Stori Cymraeg, pob un yn cynnwys llyfr, CD a syniadau cwricwlwm, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â Neil Griffiths. Ar gael Tachwedd 2008 o Ganolfan Integredig Conwy (Ffôn: 01492 876434).
www.conwy.gov.uk

**AALl Wrecsam**

Mae pecyn hyfforddi i'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer athrawon wedi cael ei gynhyrchu: Addysg Gynnar (3–7 oed) Rhaglen Hyfforddi Dwyieithrwydd. Mae'n edrych ar ddwyieithrwydd ar draws y Meysydd Dysgu, yn ogystal ag edrych ar sut i greu amgylchedd a meysydd chwarae dwyieithog. Gall y pecyn gael ei ddefnyddio i gynllunio, asesu ac fel sbardun yn y dosbarth.

Ar gael o Ganolfan Erlas, Ffordd Bryn Estyn, Wrecsam, LL13 9TY
Ffôn: 01978 317600

**Abertawe** (a **Chastell-nedd Port Talbot**)

Mae *Tedi Twt* yn pecyn cynhwysfawr amlgyfrwng ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar a grëwyd gan dîm Athrawon Bro Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot gyda chymorth athrawon dosbarth y ddwy sir.

Ceir dwy fersiwn o'r pecyn – mamiaith ac ail iaith – ac maen nhw'n cyflwyno'r cymeriad bach hoffus Tedi Twt sy'n annog y plant i siarad Cymraeg. Mae'r pecyn yn cynnig amrediad o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn y dosbarth.

Cynnwys y pecyn:

- un llyfr A3 a phedwar llyfr A4 i bob un o'r chwech stori: *Tedi Twt a'r Tywydd, Dillad Tedi Twt, Tedi Twt ar y Fferm, Tedi Twt yn Dost, Tedi Twt yn Siopa, Picnic Tedi Twt*
- casetiau i gyd-fynd â phob stori
- gemau amrywiol
- ffeil ar gyfer athrawon sy'n cynnwys:
  – cyfieithiad o bob stori
  – cyfarwyddiadau a chanllawiau i'r gweithgareddau
  – caneuon addas i bob stori i atgyfnerthu'r patrymau a geirfa
  – amrywiaeth o daflenni gwaith.

Yn y fersiwn ail iaith ceir hefyd ddisg i'w ddefnyddio gyda'r bwrdd gwyn rhyngweithiol, sydd eto'n cynnig cyfleoedd i ddarllen storïau, chwarae gemau ac i'r plant ddatblygu eu sgiliau ieithyddol a chyfrifiadurol mewn ffordd sy'n ddiddorol a llawn hwyl.

Mae'r adnoddau hyn ar gael o Ganolfan Gymraeg San Helen, Stryd Vincent, Abertawe, SA1 3TY
Ffôn: 01792 649138

**Bro Morgannwg**

Mae'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion yn darparu rhaglen hyfforddi i ddatblygu agweddau gwahanol o ddarpariaeth megis hyfforddiant dwys i gynyddu sgiliau dwyieithog, datblygu'r Cwricwlwm Cymreig, pontio ac asesu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

Am wybodaeth bellach ffoniwch 01446 709109

Ar hyn o bryd mae'r adnoddau sydd ar gael i ysgolion Bro Morgannwg yn cynnwys CD Cymraeg ail iaith, sy'n cynnwys cardiau fflach, gemau, holiaduron a deialogau.
www.bromorgannwg.gov.uk

**Bwrdd yr Iaith Gymraeg**

Un o is-gwmnïau Mudiad Ysgolion Meithrin yw Mabon a Mabli a sefydlwyd i hybu ystod eang o lyfrau Cymraeg a dwyieithog i blant bach, yn ogystal ag adnoddau addysgol, llyfrau lliwio a llyfrau gweithgareddau, llyfrau caneuon, gemau ac eitemau eraill fel fideos, casetiau, CDau a CD-ROMau.
www.mabonamabli.co.uk

**Ceredigion**

Mae adnoddau i hybu defnyddio'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm ar gael o www.ceredigion.gov.uk

**Cyngor Sir Ddinbych**

Mae adnoddau i hybu defnydd yr iaith Gymraeg ar draws y cwricwlwm ar gael o www.denbighict.org.uk/education

**Cynnal** (yn ymdrin ag **AALlau Gwynedd** ac **Ynys Môn**)

Mae Cynnal wedi datblygu sawl adnodd i gefnogi addysgu Cymraeg i ddysgwyr, gan gynnwys *Cymraeg Hawdd*, cyfres o adnoddau rhyngweithiol sy'n atgyfnerthu patrymau iaith.
www.cynnal.co.uk

**ESIS** (yn ymdrin â phedwar AALl – **Caerffili, Merthyr Tudful, Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf**)

Deunyddiau Cymraeg Ail Iaith ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae *Bant â Ni* wedi cael ei datblygu gyda dosbarthiadau meithrin a derbyn, ac mae'n addas i'w defnyddio gan athrawon a staff eraill y Blynyddoedd Cynnar. Mae'r ffeil yn cynnwys canllawiau gwersi a gemau yn ogystal â dau dâp ganeuon.
www.esis.org.uk/schools/publications

**Mudiad Ysgolion Meithrin**

Mae'r deunyddiau a restrir isod yn cael eu defnyddio mewn cylchoedd meithrin ac ar eu cyrsiau. Dylai sefydliadau sydd am brynu'r adnoddau gysylltu â'r Mudiad Ysgolion Meithrin.
www.mym.co.uk

Mae *Cynllun Cymraeg i'r Teulu* yn cynllun sy'n helpu rhieni/gofalwyr di-Gymraeg â phlant bach sy'n mynd i'r cylchoedd drwy gyflwyno geirfa, caneuon a storïau syml yn ogystal â helpu gydag ynganiad.

Mae *Basgedi Trysor* yn pecyn adnoddau sy'n cynnwys 10 thema i hybu datblygiad iaith, sgiliau cyfathrebu a llythrennedd cynnar. Ar gael o www.mabonamabli.co.uk

*Cam wrth Gam* – Cwrs Cymraeg wedi'i baratoi yn benodol ar gyfer dysgwyr Cymraeg. Mae'r cwrs wedi'i gynllunio ar ddwy lefel, dechreuwyr a chanolradd, ac mae'n cynnig yr iaith sydd ei hangen i weithio gyda phlant bach.

**Powys**

Mae'r deunyddiau sy'n cael eu defnyddio yn nosbarthiadau'r Blynyddoedd Cynnar a Chyfnod Allweddol 1 wedi'u datblygu gan yr Athrawon Bro ac maen nhw'n dilyn fframwaith y cytunwyd arno.

**Torfaen**

Mae Strategaethau Gwasanaeth Ymgynghorol Cymraeg Torfaen ar gyfer datblygu dwyieithrwydd yn y Blynyddoedd Cynnar yn cynnwys sesiynau hyfforddi iaith sy'n cyfateb i'r iaith yn y pecyn addysgu a dysgu *Joio dan 5* sydd wedi'i greu gan y Gwasanaeth Ymgynghorol mewn cydweithrediad â Chwmni Acen.

Cynllun gwaith yw'r pecyn yma ac mae wedi'i ddylunio i ddatblygu dwyieithrwydd ymhob Maes Dysgu drwy storïau, caneuon a gweithgareddau chwarae yn y dosbarth ac yn y lle chwarae yn yr awyr agored.

Mae'r pecyn yn cynnwys 16 o lyfrau lliw llawn, CD-ROM sy'n adrodd y storïau a CD-ROM o'r caneuon. Mae'r pecyn wedi'i seilio ar gymeriadau rhigymau traddodiadol ac yn troi o gwmpas tri chymeriad o'r enw Tedi, Doli a Bwni.
www.torfaen.co.uk

Mae llawer o gyhoeddwyr yng Nghymru yn cynhyrchu amrywiaeth mawr o lyfrau ac adnoddau dwyieithog. Bydd gwefan Cyngor Llyfrau Cymru www.gwales.com yn rhoi rhestr gynhwysfawr, ynghyd ag amlinelliad o’r cynnwys ac i ba ystod oedran maen nhw’n addas.

Mae gan wefan y BBC deunydd ar-lein defnyddiol iawn ar gyfer rhieni sydd eisiau dysgu Cymraeg, gan gynnwys gweithgareddau ar-lein, sgyrsiau a geiriadur manwl.
www.bbc.co.uk/wales/welshathome

# Geirfa'r Cyfnod Sylfaen

**Addysgeg**
Mae addysgeg yn cyfeirio at y berthynas rhwng dysgu ac addysgu. Mae'n cynnwys y cysyniad o'r ymarferydd fel hwylusydd dysgu, gan ymateb i anghenion unigolion, parodrwydd i ddysgu ochr yn ochr â'r plant, defnyddio dulliau priodol i reoli'r broses ddysgu a myfyrio'n barhaus ar arfer a'i gwella.

**Amrywiaeth ddiwylliannol**
Mae'r Cyfnod Sylfaen yn cefnogi hunaniaeth ddiwylliannol pob plentyn, yn dathlu gwahanol ddiwylliannau ac yn helpu plant i adnabod a chael ymwybyddiaeth gadarnhaol o'u diwylliant nhw eu hunain a diwylliant pobl eraill. Dylid datblygu agweddau cadarnhaol er mwyn cynnig modd i blant fod yn fwy ymwybodol o werth yr amrywiaeth o ddiwylliannau ac ieithoedd sy'n bodoli yng Nghymru, a'u gwerthfawrogi.

**Annibyniaeth**
Mae annibyniaeth yn cyfeirio at gael y gallu a'r sgìl i fod yn llai dibynnol ar eraill. Dylai sgiliau rheoli ac ymdopi gael eu datblygu'n raddol trwy'r Cyfnod Sylfaen.

**Asesu statudol**
O fewn y Cyfnod Sylfaen mae dau asesiad statudol y mae'n rhaid eu cyflawni: asesu sylfaenol ac asesiad statudol athrawon diwedd cyfnod.

**Cof**
Y cof yw rhan o'r ymennydd lle mae gwybodaeth yn cael ei chasglu, ei chadw a'i hadalw yn ddiweddarach. I gychwyn rhaid cymryd gwybodaeth a'i deall; yna caiff ei chadw a'i hadalw pan fydd ei hangen. Mae angen pob un o'r prosesau hyn er mwyn i ddysgu ddigwydd.

**Cwricwlwm**
Mae saith Maes Dysgu wedi cael eu nodi i ddisgrifio cwricwlwm priodol ar gyfer plant 3 i 7 oed sy'n cefnogi datblygiad plant a'u sgiliau. Maen nhw'n ategu ei gilydd ac yn cydweithio i ddarparu cwricwlwm sy'n gyfannol. Mae'r cynnwys (sgiliau ac ystod) addysg statudol y mae angen ei ddilyn i'w gweld ym mhob Maes Dysgu.

**Cwricwlwm cyfannol**
Mae'r cwricwlwm cyfannol yn gwricwlwm lle mae Meysydd Dysgu wedi'u cydgysylltu ac mae dysgu ac addysgu yn cynnal sawl agwedd

ar ddatblygiad y plentyn yn hytrach na chanolbwyntio ar un cyfnod neu angen penodol. Mae'r cwricwlwm yn cael ei ystyried a'i gyflwyno fel un cwricwlwm.

**Cwricwlwm Cymreig**
Mae'r Cyfnod Sylfaen yn cyfrannu at y Cwricwlwm Cymreig trwy ddatblygu dealltwriaeth plant o'r hunaniaeth ddiwylliannol sy'n unigryw i Gymru ar draws pob Maes Dysgu trwy ymagwedd integredig. Dylai plant werthfawrogi'r gwahanol ieithoedd, delweddau, gwrthrychau, seiniau a blasau sy'n rhan annatod o Gymru heddiw, a chael syniad o berthyn i Gymru, a deall treftadaeth, llenyddiaeth a chelfyddydau Cymru yn ogystal â'r iaith.

**Cyfathrebu/datblygu iaith**
Mae iaith yn gyfuniad o wahanol ffurfiau a sgiliau sy'n cynnwys siarad a gwrando, darllen, ysgrifennu, meddwl ac arsylwi. Mae tôn y llais yn ffurf bwerus o gyfleu ystyr. Gall rhai plant ddefnyddio systemau eraill heblaw'r llais megis arwyddo.

Mae gwahanol fathau o gyfathrebu di-eiriau hefyd, megis mynegiant yr wyneb (gwenu), ystumiau/symudiadau'r corff (ysgwyddau yn gwargrymu a chysylltiad â'r llygad).

**Chwarae addysgol strwythuredig**
Mae deilliannau wedi'u cynllunio'n benodol yn deillio o brofiadau chwarae strwythuredig i estyn dysgu, sgiliau a datblygiad plant. Dylai chwarae strwythuredig gael ei gynllunio mewn ffordd hyblyg er mwyn caniatáu i blant gael cyfleoedd i ddewis ac ehangu'r gweithgaredd yn ôl eu diddordebau a'u gwybodaeth.

**Chwarae ar eu pennau eu hunain**
Mae plant yn chwarae'n hapus ar eu pennau eu hunain. Byddan nhw'n ymwneud â'u chwarae eu hunain ac yn symud o weithgaredd i weithgaredd heb ystyried unrhyw blant eraill. Yn aml yn y cyfnod chwarae hwn bydd plant yn mwynhau efelychu gweithgareddau bob dydd.

**Chwarae cydweithredol/grŵp**
Pan fydd plant yn dechrau chwarae gyda'i gilydd, byddan nhw'n rhannu eu chwarae. Daw plant yn fwy cymdeithasol, byddan nhw'n derbyn rolau yn y chwarae ac yn ystyried rolau plant eraill. Maen nhw'n dechrau dod yn ymwybodol o anghenion a dymuniadau eu cyfoedion, ac felly yn raddol bydd y chwarae yn dod yn fwy cymhleth. Weithiau byddan nhw'n dyfeisio rheolau, a byddan nhw'n mynd yn ôl at y chwarae cydweithredol dros sawl diwrnod.

**Chwarae paralel**
Gall ymddangos fod plant yn chwarae gyda'i gilydd ond trwy arsylwi'n fwy manwl gwelir bod y plant yn chwarae ar eu pennau eu hunain ac nid yn rhyngweithio â'i gilydd. Gall plant fod yn defnyddio'r un cyfarpar neu'n eistedd neu'n sefyll nesaf at ei gilydd, ond eto yn gweithio'n annibynnol ar ei gilydd; nid oes unrhyw ryngweithio cadarnhaol na negyddol rhyngddyn nhw yn eu chwarae.

**Dan arweiniad ymarferydd/oedolyn**
Mae angen i ymarferwyr gynllunio cwricwlwm priodol sy'n cadw diddordeb plant yn eu dysgu. Mae angen iddyn nhw annog, cymell a datblygu agweddau. Mae angen i ymarferwyr fod yn ymwybodol o bryd y mae'n briodol i ymyrryd yn sensitif i estyn dysgu'r plant, herio'u sgiliau datrys problemau a'u sgiliau meddwl, a phryd i ganiatáu i'r plant gyrraedd diweddglo boddhaol ar eu pennau eu hunain. Dylai ymarferwyr gefnogi/cynnal dysgu'r plant, trwy arsylwi, monitro ac asesu dilyniant plant er mwyn sicrhau eu bod yn symud ymlaen i gyfnodau nesaf eu datblygiad a bod eu sgiliau yn cael eu hestyn.

**Datblygiad corfforol**
Mae datblygiad corfforol yn canolbwyntio ar gynyddu sgiliau a pherfformiad y corff. Mae cysylltiad agos rhwng datblygiad corfforol a gwybyddol, yn enwedig yn ystod y blynyddoedd cynnar. Gellir rhannu datblygiad corfforol yn sgiliau echddygol bras a sgiliau llawdrin manwl.

**Datblygiad cymdeithasol**
Mae datblygiad cymdeithasol yn canolbwyntio ar ryngweithiadau cymdeithasol plant a'u perthynas â'u cyfoedion, ymarferwyr ac oedolion.

**Datblygiad gwybyddol**
Ystyr datblygiad gwybyddol yw datblygu'r meddwl. Mae'n canolbwyntio ar feddwl a dealltwriaeth, dychymyg a chreadigrwydd y plentyn (gan gynnwys datrys problemau/rhesymu/canolbwyntio a chof).

**Datblygiad personol**
Mae datblygiad personol yn canolbwyntio ar ymwybyddiaeth plant o'u hunain a datblygu eu sgiliau hunangymorth.

**Datrys problemau**
Mae datrys problemau yn canolbwyntio ar ddatblygu'r gallu i asesu problem/sefyllfa yna casglu gwybodaeth a chael hyd i ateb. Pan fydd sgiliau'r plant yn cynyddu byddan nhw'n gallu tynnu ar brofiadau blaenorol wrth roi cynnig ar weithgareddau newydd a datrys problemau.

**Deilliannau**
Mae Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen yn cynnwys graddfeydd a disgrifiadau asesu sylfaenol a disgrifiadau lefel y cwricwlwm cenedlaethol. Cawsant eu datblygu i ategu asesiad statudol athrawon diwedd cyfnod. Mae chwe Deilliant gan bob Maes Dysgu ac at ddibenion gwybodaeth mae Deilliannau 4–6 yn croesgyfeirio'n fras i'r disgrifiadau cyfredol am Lefelau 1–3.

**Dulliau dysgu**
Mae gwahanol ddulliau dysgu neu ddulliau rhyngweithio o ddewis. Y dulliau dysgu yw: gweledol, clybodol a chinesthetig. Pan fydd dulliau dysgu yn cael eu hystyried gellir gwella dysgu. Bydd rhai plant yn dysgu orau os oes ysgogiad gweledol ganddyn nhw, ond bydd eraill yn dysgu orau trwy ysgogiad clybodol neu dasg ginesthetig (ymarferol). Mae ymchwil i ddatblygiad yr ymennydd wedi dangos bod dulliau dysgu unigol yn cael eu heffeithio gan yr amgylchedd, y math o weithgaredd dysgu a gweithio'n annibynnol neu mewn grŵp.

**Dychymyg**
Ystyr dychymyg yw cael y sgiliau a'r gallu i ffurfio delweddau, syniadau a chysyniadau sydd naill ai'n bodoli ond nid ydyn nhw'n bresennol neu nad ydyn nhw'n bodoli o gwbl.

**Dysgu gweithredol**
Mae'r term hwn yn cyfeirio at blant yn dysgu'n weithredol ac yn cael rhan yn eu dysgu. Mae plant yn dysgu orau trwy brofiadau uniongyrchol. Mae'n hanfodol bod plant yn cael profiadau gweithredol dan do ac yn yr awyr agored sy'n meithrin eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ac a fydd yn cynnal eu dysgu yn y dyfodol.

Pwrpas chwarae/dysgu gweithredol yw ei fod yn cymell, yn ysgogi ac yn cynnal plant wrth iddyn nhw ddatblygu sgiliau, cysyniadau, caffael iaith/sgiliau cyfathrebu a chanolbwyntio. Hefyd, mae'n rhoi cyfle i blant ddatblygu agweddau cadarnhaol a dangos ymwybyddiaeth/defnydd o ddysgu diweddar, sgiliau a chymwyseddau, ac mae'n cyfnerthu dysgu.

**Dysgu yn yr awyr agored**
Mae pwyslais cryf ar ddysgu yn yr awyr agored yn y Cyfnod Sylfaen. Dylai'r amgylchedd dysgu yn yr awyr agored fod yn estyniad i'r amgylchedd dan do. Dylid cynllunio gweithgareddau strwythuredig yn seiliedig ar brofiad ar gyfer y diwrnod cyfan a chyn belled ag y bo modd, dylai plant gael symud yn rhwydd rhwng y tu mewn a'r tu allan (gan gadw mewn cof faterion iechyd a diogelwch).

**Fframwaith sgiliau**
Mae'r *Fframwaith sgiliau ar gyfer plant 3 i 19 oed yng Nghymru* anstatudol yn disgrifio dilyniant mewn datblygu meddwl, cyfathrebu, rhif a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

**Gwahaniaethu**
Dylai'r cwricwlwm fod yn hyblyg er mwyn cyfateb â galluoedd, sgiliau ac anghenion datblygiadol plant.

**Gwylio chwarae**
Bydd plant yn arsylwi ar blant eraill ond nid ydyn nhw'n ymuno. Byddan nhw'n hoffi gwylio plant eraill yn chwarae. Yn aml gellir eu gweld yn sefyll/eistedd ar ymylon y mannau lle mae'r plant eraill yn chwarae. Er y gall ymddangos eu bod yn unig neu'n ddihyder, yn aml gallan nhw fod yn canolbwyntio tra eu bod yn arsylwi ar y chwarae er mwyn datblygu dealltwriaeth o'r hyn sydd i'w wneud.

**Hunan-barch**
Mae hyn yn cyfeirio at y ffordd y mae plant yn teimlo amdanyn nhw eu hunain. Mae teimladau cadarnhaol yn dynodi hunan-barch uchel a theimladau negyddol yn dynodi hunan-barch isel.

**Lles emosiynol**
Mae datblygiad emosiynol yn canolbwyntio ar ddatblygu hunan-barch plant, eu teimladau a'u hymwybyddiaeth o deimladau eraill.

**Partneriaeth/chwarae cysylltiadol**
Bydd plant sy'n gweithio yn y cyfnod partneriaeth/chwarae cysylltiadol yn dechrau dod yn ymwybodol o blant eraill. Byddan nhw'n dechrau cyfathrebu â'i gilydd ac yn fwy ymwybodol o'r chwarae/gemau y mae'r plant eraill yn cymryd rhan ynddyn nhw. Maen nhw'n dechrau esbonio i'w gilydd beth maen nhw'n ei wneud. Yn raddol bydd un plentyn yn dechrau ymwneud â chwarae'r llall.

**Proffil asesu**
Mae'r proffil asesu yn cynnig arweiniad ar gyfnodau datblygu allweddol plant a'r sgiliau y gall plant eu datblygu a'u caffael o tua 18 mis i 84 mis.

**Sgiliau echddygol bras**
Mae datblygiad sgiliau echddygol bras yn dechrau gyda'r baban ifanc yn rheoli symudiadau'r pen ac yna'n, symud i lawr y corff, rheoli rhannau eraill o'r corff. Mae datblygiad echddygol bras yn cynnwys defnyddio symudiadau'r corff cyfan, cydsymud a chydbwysedd.

**Sgiliau llawdrin manwl**
Mae datblygu sgiliau llawdrin manwl/echddygol plant yn dechrau yng nghanol eu cyrff ac yn symud allan. Trwy ddatblygiad priodol, bydd plant yn gallu cyflawni symudiadau manwl a chymhleth. Mae sgiliau llawdrin manwl yn cynnwys defnyddio symudiadau'r bysedd a chydsymud llaw–llygad.

**Wedi'u cychwyn gan blant/canolbwyntio ar blant**
Dylai cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ganolbwyntio mwy ar ddiddordebau, datblygiad a dysgu plant yn hytrach na'r cwricwlwm a deilliannau rhagderfynedig. Mae'n bwysig nodi bod rhaid i'r cwricwlwm a gynlluniwyd gael strwythur ac amcanion dysgu clir ond bod yn ddigon hyblyg i alluogi plant i ddilyn eu diddordebau a diwallu eu hanghenion.

Dylai arsylwi'n ofalus ar y cwricwlwm a gynlluniwyd a sut mae'r plant yn ymateb iddo ddarparu tystiolaeth i ddangos a yw'r plant yn canolbwyntio ar eu dysgu ac nid yn chwarae'n ddibwrpas. Mae dealltwriaeth o ddatblygiad y plentyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod plant yn cael eu hestyn yn eu dysgu.

**Ymarferwyr**
Mae'r term generig hwn yn cyfeirio at yr oedolion sy'n gweithio gyda phlant yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'n cynnwys athrawon a chynorthwywyr ystafell ddosbarth yn y sector a gynhelir, a staff sy'n gweithio yn y lleoliadau addysg a ariennir yn y sector nas cynhelir.

# Cydnabyddiaethau

Hoffai Is-adran Cwricwlwm ac Asesu yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) ddiolch i'r holl blant, ymarferwyr, rhieni, gofalwyr, lleoliadau, ysgolion a sefydliadau eraill sydd wedi helpu i gynhyrchu'r ddogfen hon, gan gynnwys:

Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Cylch Chwarae'r Pentref, Pen-y-bont ar Ogwr

Meithrinfa Si Lwli, Caerdydd

Mudiad Ysgolion Meithrin

National Child Minding Association

Ymgynghorwyr Blynyddoedd Cynnar Cymru Gyfan

Ysgol Fabanod Troedyrhiw, Merthyr Tudful

Ysgol Feithrin Parc Caia, Wrecsam

Ysgol Gymraeg Gwaun y Nant, Y Barri

Ysgol Gynradd Cadle, Abertawe

Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair, Pen-y-bont ar Ogwr

Ysgol Gynradd Holton, Y Barri

Ysgol Gynradd Kitchener, Caerdydd

Ysgol Gynradd Rhymni, Caerdydd

Ysgol Gynradd y Dyffryn, Casnewydd

Ysgol Rhiw Bechan, Powys.